

Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Medi 2020

Dyma'r diweddaraaf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraaf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

Ymateb i'r Coronafeirws (COVID-19)

Rydym wedi gorfod newid ein gweithrediadau arferol i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ymateb y llywodraeth i bandemig y Coronafeirws, ynghyd â darparu'r wybodaeth angenrheidiol lle mae ei hangen fwyaf. [Mae'r datganiad hwn yn rhoi diweddariad ar ein dull gweithredu](#).

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi ehangu ein hamrywiaeth o setiau data a'n datganiadau rheolaidd newydd er mwyn hysbysu'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein tudalen Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â Coronafeirws (COVID-19) [Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws \(COVID-19\)](#). Mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata ar y canlynol:

- Gweithgarwch a chapasiti'r GIG
- Profion a threfniadau olrhain cysylltiadau'r Coronafeirws
- Hysbysiadau o farwolaethau mewn cartrefi gofal
- Amcangyfrifon o'r coronafeirws yn y gymuned, o arolwg heintiau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Cyfarpar diogelu personol
- Arolygon o farn ac ymddygiadau

Mae'r Uned Ymchwil Data Gweinyddol hefyd wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddadansoddiadau sy'n ymwneud â'r boblogaeth a warchodir.

Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym wedi parhau i ddiweddarau [Ystadegau economaidd allweddol](#) bob mis, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data er mwyn rhoi'r darlun diweddaraaf o'r effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael ar y farchnad lafur yng Nghymru.

Rydym yn cyhoeddi tudalen bennawd bob mis ar y [cynllun cadw swyddi coronafeirws a'r cynllun cymorth incwm hunangyflogaeth](#) fel y cyhoeddir gan CThEM. Ym mis Mehefin,

gwnaethom gyhoeddi amrywiaeth o ddata yn ystyried [nodweddion gwarchodedig y cyflogeion y mae'r coronafeirws yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt](#)

Rydym wedi cyhoeddi nifer o'n datganiadau arferol fel [CDG rhanbarthol](#), [dangosyddion allbynnau tymor-byr](#) a [gwariant gros ymchwil a datblygu](#).

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

Addysg

Ysgolion

Addysg drawsbynciol ac ôl-16

Ar ddechrau mis Awst, gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth reoli am [brentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig y coronafeirws](#). Er na chynhaliwyd yr un lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ar y data hyn, mae'n cynnig awgrym amserol o'r graddau yr effeithiwyd ar brentisiaid yn ystod y misoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu diweddarau'r wybodaeth hon bob mis.

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi ein datganiadau blynyddol ar [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#) a [phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant \(NEET\)](#). Defnyddiwyd fformat newydd ar gyfer y ddau ddatganiad a byddem yn croesawu unrhyw adborth ar hyn. Mae'r datganiad NEET hefyd yn cynnwys diweddariad chwarter 4 2019 ar gyfer Cyfres yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill, ond fe'i gohiriwyd yn dilyn penderfyniad i dargedu ein hadnoddau at waith dadansoddi ac ystadegau yn ymwneud â COVID-19 yr oedd angen rhoi blaenoriaeth iddynt.

Un o'n hallbynnau eraill yr effeithiwyd arnynt gan hyn oedd ein datganiad blynyddol ar [staff mewn sefydliadau addysg bellach](#). Fe'i cyhoeddwyd ar 26 Awst ar ôl cael ei ohirio yn gynharach yn ystod y flwyddyn.

Yn ddiweddar, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein diweddariad chwarterol dros dro diweddaraf ar [rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd](#), a oedd yn ymdrin â chwarter 2 blwyddyn academaidd 2019/20.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru.

Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr

Cyhoeddwyd gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n hyfforddi i ddod yn athrawon ar gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon (AGA) sy'n arwain at statws athro cymwysedig ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2018 i fis Awst 2019 yn ein bwletin [Addysg Gychwynnol i Athrawon](#).

Cyhoeddwyd gwybodaeth am fyfyrwyr â rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2018 i fis Awst 2019 yn ein bwletin [Yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch](#).

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth sydd gennych ar y bwletinau presennol, neu'r hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r blwch post ar gyfer [Ystadegau ar Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr](#).

Tai

Anghenion Tai

Cyhoeddwyd yr erthygl ystadegol "[Amcangyfrifon o'r angen Ychwanegol am dai yng Nghymru \(ar sail-2019\)](#)" ar 13 Awst ac mae'n cyflwyno amcangyfrifon ar sail 2019 o'r angen ychwanegol cyffredinol am dai o 2019/20 hyd at 2038/39. Mae'r ffigurau yn ymwneud â'r angen am unedau tai ychwanegol ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

- Amcangyfrifon o'r angen presennol sydd heb ei ddiwallu.
- Angen newydd (amcanestyniadau o aelwydydd ar sail 2018).

Cyflwynir data ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'r ffigurau hyn yn diweddarau'r amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai ar sail 2018 a gyhoeddwyd yn 2019.

Cefnogir yr erthygl ystadegol hon gan ddata a gyhoeddwyd ar StatsCymru yn ogystal ag adnodd Excel lle y gellir newid yr holl ffynonellau data a'r holl ragdybiaethau sylfaenol er mwyn ystyried effaith yr amcangyfrifon o'r unedau tai ychwanegol wedi'u rhannu yn ôl deiliadaeth.

Dangosfwrdd Cyflenwad Tai

Cyhoeddwyd [dangosfwrdd rhyngweithiol o Ystadegau cyflenwad tai](#) yn ddiweddar. Mae'r dangosfwrdd yn dwyn ynghyd wybodaeth am yr Amcangyfrifon Stoc Anheddau, Adeiladu Tai Newydd, Tai Fforddiadwy a'r Angen am Dai ar lefel ranbarthol ac ar lefel awdurdodau lleol. Rydym yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad y dangosfwrdd (drwy ystadegau.tai@llyw.cymru).

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Rydym yn argymhell y dylech gysylltu â ni drwy'r [blwch post](#) ar hyn o bryd os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau gan fod y staff sydd ar gael yn amrywio.

Iechyd

Cyhoeddiadau

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar y [wefan ystadegau ac ymchwil](#).

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Gweithlu practis cyffredinol

Cyhoeddwyd ail [ddatganiad ar y gweithlu practis cyffredinol](#) gan ddefnyddio data System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu i Gymru. Mae'n darparu dadansoddiad manylach a data o ansawdd gwell na'r argraffiad cyntaf ar gyfer pob un a gyflogir mewn practis meddyg teulu. Bydd y broses yn symud i gylch cynhyrchu bob chwarter a disgwylir i'r datganiad nesaf gael ei gyhoeddi ar 29 Hydref.

Iechyd Plant

Ailgyhoeddwyd ein [Ystadegau mamolaeth a genedigaethau](#) ar gyfer 2019 er mwyn cynnwys data cofrestru genedigaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae datganiadau chwarterol StatsCymru wedi aildddechrau ar gyfer data bwydo ar y fron a data Rhaglen Plant Iach Cymru, a chyhoeddwyd y data diweddaraf ar 17 Awst.

Cyhoeddwyd y [datganiad ystadegol blynyddol](#) ar gyfer Rhaglen Plant Iach Cymru hefyd ar 17 Awst.

Gweithgarwch y GIG

Oherwydd pandemig y coronafeirws, dim ond data ar lefelau gweithgarwch cleifion sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau i'r adrannau hynny, galwadau brys i'r gwasanaethau ambiwlans, atgyfeiriadau cleifion allanol a chleifion sy'n dechrau triniaeth am ganser y mae'r datganiad misol ar weithgarwch y GIG yn eu cyhoeddi. Mae trafodaethau wedi dechrau er mwyn penderfynu a ddylid ailgyflwyno data sy'n gysylltiedig â pherfformiad a beth yn benodol y gallai'r data hynny ei gynnwys.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol ar y broses o gasglu data lefel unigol (y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth) ar gyfer 2019-20. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt o ran gofynion casglu data ar gyfer blwyddyn adrodd 2020-21.

Gwyddor Data ac Ymchwil Data Gweinyddol

Yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), mae'r Uned Ymchwil Data Gweinyddol wedi cynnal nifer o brosiectau cysylltu data, gan gynnwys:

[Plant mewn aelwydydd a warchodir](#)

[Mynediad cleifion a warchodir i fan awyr agored preifat](#)

[Athrawon a chynorthwyr addysgu a warchodir](#)

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ADRUWales@llyw.cymru

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Arolwg blwyddyn lawn 2019-20

Cyhoeddwyd canlyniadau ein harolwg blwyddyn lawn diweddaraf, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb, ar 14 Gorffennaf. Gellir gweld y [datganiad cyntaf](#) a thablau'r dangosydd [dangosydd canlyniadau](#) ategol ar ein [gwedudalennau](#).

Arolwg ffôn misol 2020

O fis Mai 2020, gwnaethom ddechrau cynnal arolwg byr dros y ffôn bob mis gyda phobl a oedd wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol blwyddyn lawn blaenorol, gan ymdrin â nifer o bynciau sy'n berthnasol i'r sefyllfa sy'n datblygu o ran y coronafeirws.

Cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf yn seiliedig ar 3,000 o gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod mis [Mai 2020](#) ar 25 Mehefin. Mae'r pynciau yn cynnwys: apwyntiadau meddyg teulu, gofal cymdeithasol, addysg, cydlyniant cymunedol, llesiant, unigrwydd, newidiadau mewn statws gweithio, ymdopi â biliau / rhent / morgais, Credyd Cynhwysol, parseli bwyd a thlodi bwyd. Cyhoeddwyd yr ail gyfres o ganlyniadau yn seiliedig ar 1,400 o gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod mis [Mehefin 2020](#) ar 23 Gorffennaf ac roedd y pynciau newydd yn ystod mis Mehefin yn cynnwys: gwirfoddoli, gofalu, yfed alcohol a pherchnogaeth ffôn clyfar. Cyhoeddwyd y trydydd mis o ganlyniadau (1,300 o gyfweiliadau) a gynhaliwyd ym mis [Gorffennaf 2020](#) ar 20 Awst. Roedd y cwestiynau newydd a ychwanegwyd at yr arolwg ym mis Gorffennaf yn cynnwys: gweithgarwch corfforol yn ystod yr wythnos ddiwethaf, pa mor aml mae pobl yn beicio, pa mor hir y mae gwirfoddolwyr a gofalmwyr yn bwriadu parhau i roi o'u hamser, a chwestiynau ychwanegol ar dlodi bwyd (yn gofyn i bobl a ydynt yn hepgor prydau bwyd neu'n bwyta llai).

O fis Hydref ymlaen, byddwn yn symud i gasglu a chyhoeddi canlyniadau unwaith bob chwarter. Mae'r dyddiadau disgwyliedig ar gyfer y tair cyfres o ganlyniadau nesaf fel a ganlyn:

Cyfnod gwaith maes yr arolwg	Canlyniadau ar gael
Awst 2020	Diwedd Medi 2020
Medi 2020	Diwedd Hydref 2020
O fis Hydref i fis Rhagfyr 2020	Diwedd Chwefror 2021

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr arolwg chwarterol cyntaf (o fis Hydref i fis Rhagfyr), ebostiwch Heulwen.hudson@llyw.cymru cyn gynted â phosibl.

Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Cyhoeddwyd MALIC 2019 ar 27 Tachwedd 2019, ac ar y diwrnod hwnnw gwnaethom ddiweddarau ein [Hadroddiad Canlyniadau](#), [data StatsCymru](#) a'r [adnodd rhyngweithiol](#). Eleni rydym yn parhau i gyhoeddi allbynnau dilynol ar gyfer MALIC 2019, a hyd yn hyn rydym wedi cyhoeddi:

- [Data fesul oedran](#) ar amddifadedd incwm a chyflogaeth, a dangosyddion absenoldeb mynych.
- [Cyfansymiau amddifadedd incwm a chyflogaeth](#) ar gyfer ystod o ardaloedd daearyddol a grwpiau oedran. Mae'r data hyn yn gymesur â'r rhifiaduron a ddefnyddir wrth gyfrifo cyfradd amddifadedd incwm a chyflogaeth.
- [Data](#) sy'n ategu'r gwaith dadansoddi ar amddifadedd hirsefydlog,

Cyfeiriwch at "[MALIC 2019: rhestr o allbynnau](#)" ar gyfer rhestr lawn o gyhoeddiadau MALIC yn 2019, gan gynnwys yr hyn sydd i ddod.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru i danysgrifio.

Trafnidiaeth

Ar 16 Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi [damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer 2019](#).

Ar 18 Awst, gwnaethom ailgyhoeddi ein cyhoeddiadau [defnydd gorsafoedd rheilffordd](#) a [trafnidiaeth rheilffyrdd](#) ar ôl cywiro gwallau yn y data sylfaenol a ddarparwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

Y Gymraeg

Ar 25 Mehefin, cyhoeddwyd [Canlyniadau'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth am y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020](#).

Ar 14 Gorffennaf, cyhoeddwyd [prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) ar gyfer cyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Roedd y canlyniadau hyn yn cynnwys canlyniadau am allu pobl yn y Gymraeg yn ogystal â'u defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau lleol ac awdurdodau lleol.

Y Boblogaeth a Demograffeg

Cyhoeddir [diweddariad demograffeg chwarterol](#) ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

Manylion cyswilt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desq.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

Twitter 

[YstadegauCymru](#)

Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

Ymholiadau gweinyddol

E-bost: gweinydduggd@llyw.cymru